

---

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

---

**National Assembly for Wales**

Economy, Infrastructure and Skills Committee

---

Adrian Crompton  
Archwilydd Cyffredinol Cymru  
Swyddfa Archwilio Cymru  
24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd  
CF11 9LJ

16 Ebrill 2019

Annwyl Adrian

**Adroddiad Pwyllgor y Cynulliad ar Amharu ar y Rheilffyrdd yn ystod yr hydref**

Ysgrifennaf i dynnu eich sylw at yr adroddiad a gyhoeddwyd gan Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau y Cynulliad ar 20 Mawrth 2019 ar Amharu ar y Rheilffyrdd yn ystod yr hydref. Disgwylir ymateb Llywodraeth Cymru ar 1 Mai, er, o gofio faint o amser sydd wedi mynd heibio mae'n annhebygol y caiff yr adroddiad ei drafod yn y Cyfarfod Llawn.

Mae'r adroddiad yn nodi bod gwaith craffu'r Pwyllgor ar fasnachfaint y rheilffyrdd wedi'i lywio gan adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar fuddsoddiad Llywodraeth Cymru mewn gwasanaethau a seilwaith rheilffyrdd, ac roedd y Pwyllgor hefyd yn ddiolchgar am gael ei friffio gan staff Swyddfa Archwilio Cymru. Felly, nodais yn rhagair yr adroddiad y byddwn yn ysgrifennu i dynnu eich sylw at ganfyddiadau'r Pwyllgor, a allai helpu i lywio unrhyw gynlluniau sydd gan Swyddfa Archwilio Cymru yn y dyfodol i archwilio gweithrediadau'r fasnachfaint ar ôl i Drafnidiaeth Cymru (TfW) ymsefydlu a datblygu ei raglen gwella'r seilwaith rheilffordd ymhellach.

Mae'r chwe argymhelliad yn adroddiad y Pwyllgor yn cynnwys:

- dylai Trafnidiaeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ddiwedd 2019 ar ei safonau perfformiad newydd a'i gynllun ar gyfer cyfathrebu'r amrywiaeth lawn o ddata safonau a pherfformiad (Argymhelliad 3);
- sicrhau'r Pwyllgor y bydd materion yn ymwneud â gallu yn cael sylw priodol drwy welliannau wedi eu cynllunio i'r gwasanaeth, ac y bydd cynllunio



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA  
SeneddESS@cynulliad.cymru  
www.cynulliad.cymru/SeneddESS  
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA  
SeneddEIS@assembly.wales  
www.assembly.wales/SeneddEIS  
0300 200 6565


capasiti yn ystyried yn llawn pob ffactor a all effeithio ar y galw yn y dyfodol (Argymhelliad 5); a

- bod Trafnidiaeth Cymru wedi gwneud asesiad llawn o'r risgiau sydd ynghlwm wrth ei gynlluniau ar gyfer caffael a chyflwyno cerbydau newydd i'r rhwydwaith, a sut bydd y rhain yn cael eu lliniaru (Argymhelliad 6).

Bydd y Pwyllgor hefyd yn cyhoeddi adroddiad yn fuan ar ddatblygiad Trafnidiaeth Cymru yn y dyfodol, gan edrych yn benodol a yw ei ddulliau llywodraethu, ei strwythur a'i gyllid cyfredol yn effeithiol ac yn dryloyw; ar ei rôl yn y dyfodol wrth ddarparu polisi trafndiaeth; ar sut y bydd ei gyfrifoldebau'n integreiddio â rôl Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol a chynigion sy'n dod i'r amlwg ar gyfer cyd-awdurdodau trafndiaeth.

Gobeithiaf fod canfyddiadau'r Pwyllgor yn ddefnyddiol i waith craffu Swyddfa Archwilio Cymru yn y dyfodol ar agweddau ar werth am arian gweithgareddau Trafnidiaeth Cymru.

Yn gywir



**Russell George AC**  
**Cadeirydd**  
**Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau**

